



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

Cylchlythyr

Rhif y Cylchlythyr:	WGC 001/2019	Dyddiad cyhoeddi:	25 / 02M / 2019
Statws:	Er gwybodaeth		
Teitl:	ADEILADAU BRON YN DDI-YNNI		
Cyhoeddwyd gan:			
Francois Samuel: Pennaeth Rheoliadau Adeiladu			
Cyfeiriwyd at:		Anfonwch ymlaen at:	
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Cymdeithas Arolygwyr Cymeradwy Corfforaethol Cyngor y Diwydiant Adeiladu		Swyddogion Rheoli Adeiladu'r Awdurdodau Lleol Arolygwyr Cymeradwy Aelodau Cynulliad	
Crynodeb:			
Pwrpas y llythyr hwn yw egluro'r broses o weithredu gofynion adeiladau bron yn ddi-ynni ar gyfer adeiladau cyhoeddus newydd, o ran Rheoliad 25B Rheoliadau Adeiladu 2010.			
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:			
Paul Keepins Rheoliadau Adeiladu Swyddfeydd Llywodraeth Cymru Merthyr Tudful		Llinell Uniongyrchol: 03000 628646 E-bost: enquiries.brconstruction@llyw.cymru Gwefan: https://gov.wales/topics/planning/buildingregs/approved-documents	

Cylchlythyr

GOFYNION ADEILADU BRON YN DDI-YNNI AR GYFER ADEILADAU CYHOEDDUS NEWYDD

Cyflwyniad

Bwriad y llythyr hwn yw egluro'r broses o weithredu'r gofynion ar gyfer adeiladau bron yn ddi-ynni ar gyfer adeiladau cyhoeddus newydd, o ran Rheoliad 25B Rheoliadau Adeiladu 2010.

Cafodd Rheoliad 25B ei gyflwyno i Reoliadau Adeiladu yn 2013 i drosi y gofyniad yng Nghyfarwyddeb yr UE ar gyfer Perfformiad Ynni Adeiladau er mwyn i adeiladau newydd fod yn adeiladau bron yn ddi-ynni. Mae'r llythyr hwn yn pennu canllawiau ar gyfer adeiladau newydd y mae awdurdodau cyhoeddus yn berchen arnynt, ac sy'n cael eu defnyddio ganddynt, ac a oedd angen bod yn adeiladau bron yn ddi-ynni o'r 1 Ionawr 2019.

Byddai dilyn canllawiau presennol y Rheoliadau Adeiladu yn ffordd addas o ddangos eich bod yn cydymffurfio â'r gofynion adeiladau bron yn ddi-ynni.

Cwmpas

Mae'r Cylchlythyr yn berthnasol i adeiladau a holl waith adeiladu sy'n cael ei wneud yng Nghymru.

Rheoliad 25B

Mae Rheoliad 25B yn datgan: 'Pan fydd adeilad yn cael ei godi, mae'n rhaid iddo fod yn adeilad bron yn ddi-ynni'.

Ar gyfer adeiladau newydd sy'n cael eu defnyddio a'u pherchen gan awdurdodau cyhoeddus, y dyddiad dod i rym ar gyfer Rheoliad 25B yw 1 Ionawr 2019.

Ar gyfer pob adeilad newydd arall, y dyddiad dod i rym ar gyfer Rheoliad 25B yw 31 Rhagfyr 2020.

Cydymffurfio â Rheoliad 25B

Gellid cyrraedd y lefel ofynnol o gydymffurfio gyda'r gofyniad hwn trwy fodloni Targed y Gyfradd Allyriadau sy'n ofynnol o dan Reoliad 26 a'r Gyfradd defnyddio ynni o dan Reoliad 26A.

Dylai'r rhai sy'n cynnal y gwaith yma hefyd ddadansoddi ymarferoldeb technegol, amgylcheddol ac economaidd defnyddio systemau amgen effeithlonrwydd uchel, sy'n cynnwys systemau cyflenwi ynni sydd wedi symud o'r canol, yn seiliedig ar ynni o ffynonellau adnewyddadwy, ac ystyried hyn fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliad 25A.

Ymholiadau:

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn, dylech eu cyfeirio at:

Francois Samuel,
Rheoliadau Adeiladu,
Llywodraeth Cymru,
Rhydycar,
Merthyr Tydfil,
CF48 1UZ.

Rhif Ffôn: 03000 628232.

E mail enquiries.brconstruction@gov.wales

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Francois Samuel'. The signature is written in a cursive style with a large initial 'F'.

Francois Samuel
Pennaeth Rheoliadau Adeiladu